**<u>COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 11.05.26</u>**

**5.1 <u>YMDDIHEURIADAU</u>**
Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)

**5.2 <u>PRESENNOL</u>**
Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), . James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Simon Turner, Giles Bentham, . Mark Lewis, Martin Hughes, Tegid John, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 1 aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn yr ystafell ag 1 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar zoom ar gychwyn y cyfarfod.

**<u>Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd</u>**
Nid oedd gan aelodau y cyhoedd unrhyw gwestiyna i'w gofyn.

**5.3 <u>CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD</u>.**
Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw gyhoeddiadau i'w gwneud.

**54 <u>COFNODION</u>**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 13eg 2026 fel rhai cywir.

**5.5 <u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>**
Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**5.6 <u>DATGAN BUDDIANT</u>**
Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

**5.7 <u>MATERION CYNGOR GWYNEDD</u>**
Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – adroddodd ei bod wedi derbyn cwynion bod loriau skip yn mynd lawr I maes parcio Min Don yn rheolaidd ag ei bod wedi cyfeirio y gwyn hon I'r adran amgylchedd, Cyngor Gwynedd ag hefyd I'r Heddlu.
'Roedd wedi cael cwynion bod rhai yn parcio ar hyd y stryd fawr trwy'r dydd yn ddyddiol ag 'roedd wedi cyfeirio y cwynion hyn at yr Heddlu ag yn gofyn iddynt ofyn I'r Warden Traffic ymweld ar dref.

**5.8 <u>MATERION YN CODI</u>**
**A <u>Ethol Swyddogion am y flwyddyn 26/27:-</u>**
Cadeirydd:- Cyng. James Maxwell
Is-Gadeirydd:- Cyng. Tegid John
**Aelodau is-bwyllgorau y Cyngor:-**
**Pwyllgor Ardal Gwyrdd** (sydd yn cynnwys y fynwent, llwybrau cyhoeddus, y ddau barc chwarae, rhandiroedd a llwybr natur Bron y Graig) – Cadeirydd, Is-Gadeirydd ar Cyng. Reg Chapman, Wendy Williams, Gordon Howie, Simon Turner a Giles Bentham.
**Pwyllgor Biomrywiaeth –** Cadeirydd ar Cyng. Reg Chapman
**Pwyllgor Isadeiladd** (sydd yn cynnwys y toiledau, hysbysfyrddau, llochesi bws, y gofeb a seddi cyhoeddus) - Cadeirydd, Is-Gadeirydd ar Cyng. Wendy Williams
**Pwyllgor Projectau** – Cadeirydd, Is- Gadeirydd ar Cyng. Reg Chapman, Mark Lewis a Martin Hughes
**Pwyllgor Digwyddiadau –** Cadeirydd, Is- Gadeirydd ar Cyng. Simon Turner a Mark Lewis

**Cynrychiolwyr y Cyngor a'r Bwyllgorau Allanol**

Neuadd Goffa – Cyng. Edwina Evans

Yr Hen Lyfrgell – Cyng. Edwina Evans a Martin Hughes

Un Llais Cymru – Cadeirydd ar Cyng. Martin Hughes

Llywodraethwyr Ysgol Tan y Castell – Cyng. Wendy Williams

**Is-Bwyllgorau y Cyngor**

Staffio – Cadeirydd, Is-Gadeirydd ar Cyng. Mark Lewis, Christopher Braithwaite a Giles Bentham

Cyllid - Cadeirydd, Is-Gadeirydd ar Cyng. Martin Hughes, Reg Chapman, Christopher Braithwaite a Giles Bentham

**B <u>Cynllun Cyllideb</u>**

Adroddwyd bod £10,009.81 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £42.06 o wariant yn fwy na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2026/27.

**C <u>HAL - CIC</u>**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman mewn perthynas â'r sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â HAL - Hamdden Harlech ac Ardudwy (HAL) a Buddsoddiad Cymunedol Harlech CIC. Ers cyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor Cymuned, mae trafodaethau dros y trosglwyddo o HAL i'r CIC newydd wedi parhau. Mae'r mater ar y potensial ar gyfer unrhyw werthusiad treth tir Cymreig ar y trosglwyddiad hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Ni ellir gwneud unrhyw drosglwyddo tan i hyn gael ei ddatrys gan y byddai hyn yn creu sefyllfa cydraddoldeb negyddol. Bu dau torriad i mewn ac mae hon yn sefyllfa pryderus. Gwnaethpwyd trwsio dros dro i atal mynediad pellach, diolch i Simon Dawson. Mae sgwrsiau gyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Band Arian Harlech wedi dechrau ac fe'u datblygir yn y wythnosau nesaf. Oherwydd bod y prosiect yn effeithio ar nifer o weithgareddau, mae angen cynigion eraill ar gyfer defnyddwyr y parc chwarae er mwyn cael y manteision mwyaf o'r datblygiad posibl hwn. Mae grŵp KGV egnïol yn cael ei greu. Bydd cynigion ar gyfer ail-ddatblygu a chreu cyfleoedd yn ffurfio rhan o drafodaeth gynnar.

Mater arall i Gyngor Cymuned Harlech yw sut y gall roi cyfarwyddyd i'r CIC newydd yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'r Cyng. Maxwell yn cyflwyno cynigion ar gyfer grŵp strategaeth a datblygu o fewn y Cyngor a gallai hyn reoli cyfeiriad y CIC newydd. Bydd hyn yn sicrhau cyfrifoldeb a chysylltiad yn ei gyfeiriad.

Cytunodd yr holl Gynghorwyr y dylai y pwyllgor prosiectau gymryd drosodd a rheoli CIC Cwmni Buddsoddi Harlech.

**D <u>Adroddiad blynyddol y Cyngor</u>**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi paratoi y bedwerydd adroddiad blynyddol ar ran y Cyngor ag ei bod wedi anfon hon ymlaen i bob Aelod o flaen y cyfarfod. Cytunwyd bod yr adroddiad hon yn iawn ar ol newid un brawddeg yn datganiad y Cadeirydd o "o gau Hamdden Harelch ac Ardudwy" i "i gau pwll nofio Harlech". Fe wnaeth pawb gytuno i'r adroddiad blynyddol hon gael ei lawrlwytho i wefan y Cyngor.

**E <u>Adolygu Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol y Cyngor</u>**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoid y mater hwn ar yr agenda oherwydd bod y Rheolau uchod i fod i gael eu adolygu yn flynyddol ond nid oedd y Cyngor hwn wedi gwneud hyn ers 2023. 'Roedd y Clerc wedi anfon copiau o'r Rheolau hyn ymlaen i bob Aelod cyn y cyfarfod hwn er mwyn iddynt gael golwg arnynt. Cytunwyd bod y Rheolau Sefydlog ag y Rheolau Ariannol yn iawn heblaw ddim ond 3 diwrnod yn lle 7 o rybudd oedd angen ei rhoid i gyfarfod yn y Rheolau Sefydlog. Fe wnaeth pob Aelod gytuno, heblaw y Cyng. Giles Bentham a oedd yn erbyn i gynyddu y swm oedd ei angen am bris sengl o £5k i £10k. ' Roedd y Cyng. Bentham eisiau ei adael ar £5k.

**F <u>Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin</u>**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Joe Patton ynghyd a llun yn dangos bod y llwybr newydd wedi cael ei greu ag hefyd y giat wedi ei gosod er mwyn galluogi rhai a anabledd i gael mynediad at y seddi . Hefyd yn gofyn a fyddai modd peidio a torri y gwair o amgylch y coed ffrwythau cymraeg yn yr ardal hon fel gall y blodau gwyllt ehangu. Fe wnaeth pawb gytuno i hyn ag hefyd 'roedd pawb yn gefnogol i Mr. Joe Patton gymeryd a cwrs ROSPA fel y gellir fod yn gymwys i archwilio yr offer chwarae yn y ddau barc chwarae yn rheolaidd ag fe wnaeth pawb gytuno i dalu tal y cwrs.

Dywedodd y Cyng. Christopher Braithwaite nad oedd wedi cael unrhyw ymateb gan G. L. Jones ynghylch y cyfarfod ar y safle cyn prynu'r offer chwarae newydd.
Diolchwyd i Glwb Garddio Harlech a Eglwys Goleudy am blannu'r blodau y tu allan i'r eglwys.
Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cyfarfod â chynrychiolydd o Soverign Play yn parc chwarae Llyn y Felin ar 11eg o mis nesaf am hanner dydd, a dywedodd y Cyng. Christopher Braithwaite y byddai'n mynychu os byddai ar gael.

**G <u>Ethol Cynghorydd</u>**
Adroddodd y Clerc bod hysbyseb wedi cael ei rhoid ar wefan y Cyngor ag hefyd ar yr hysbysfyrddau yn datgan bod sedd wag yn bodoli ar y Cyngor. 'Roedd y dyddiad cau ynglyn a derbyn enwebiadau heddiw ag 'roedd y Clerc wedi cael gwybod bod cais am etholiad wedi cael ei dderbyn gan y Swyddog Etholiadol yn Gaernarfon a bydd y papurau angenrheidiol yn cael eu dosbarthu iddi wythnos nesa.

**H <u>Materion a Gynigir</u>**
Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â'r goeden derwen yn Nhryfan, Bron y Graig ac bod hi ar dir y Cyngor Cymuned. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Pharc Cenedlaethol Eryri i geisio caniatâd i wneud gwaith arni ac yna cysylltu â Mr. Tom Edwards.
Adroddodd y Cyng. Simon Turner fod angen clirio chwyn y tu allan i'r toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa a chytunodd i wneud y gwaith hwn.
Datganodd y Cyng Simon Turner oherwydd haelioni gymaint o fusnesau lleol, bod y pryniant o'r bunting wedi ei gwblhau.
Roedd y Cyng. Giles Bentham eisiau gwybod a oedd cyfarfod wedi digwydd gyda'r Cadeirydd a'r Cyng. Martin Hughes a Christopher Braithwaite i drafod datblygu dulliau gwaith newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cyngor.
Roedd y Cyng. Giles Bentham eisiau gwybod a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni gweinyddiaeth tudalen weblyfr y Cyngor.
Mynegwyd pryder am y cyflymder ar ffordd isaf ac hefyd eisiau gwybod a fyddai croesfan yn cael ei godi ger ystad Ty Canol. Cytunodd y Clerc i gysylltu â'r Swyddogion perthnasol mewn cysylltiad â'r mater hwn.
Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Un Llais Cymru mewn cysylltiad â chyflog y Clerc.
Roedd y Cyng Reg Chapman eisiau cychwyn trafodaethau mewn cysylltiad â bod gan y Cyngor Cymuned ystafell yn yr Hen Lyfrgell
Mynegodd y Cyng Reg Chapman bryder nad oedd y parth ar gyfer y gwefan wedi'i dderbyn eto, ond datryswyd y mater hwn a derbyniwyd y parth.

**5.9 <u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

**<u>Codi estyniad unllawr i'r edrychiad blaen i gymryd lle'r ystafell wydr presennol, ail-osod to'r ystafell wydr gefn presennol, newidiadau i'r ffenestri ac ailosod y to fflat presennol uwchben y swyddfa Aris, 4 Pen-y-Bryn, Harlech (NP5/61/476A)</u>**
Cefnogi y Cais hwn.

**<u>Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Presennol) ar gyfer defnyddio fflat ar y llawr cyntaf fel annedd (Dosbarth Defnydd C3) a ddefnyddir fel unig breswylfa neu brif breswylfa ac a feddiannwyd am fwy na 183 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr (Ail-gyflwyniad) Fflat Plas, Siop Spar, Stryd Fawr, Harlech (NP5/61/LULB280F)</u>**
Cefnogi y Cais hwn.

**<u>5.10 ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL</u>**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £59,718.31 yn y cyfrif rhedegol a £85,890.67, yn y cyfrif cadw.

**<u>Taliadau yn ystod y mis</u>**
Mr. G. J. Williams - £168.00 – torri gwair cae peldroed a cae chwarae Brenin Sior
Mr. Meirion Evans - £1,560.00 - creu llwybr a gosod giat yn cae chwarae Brenin Sior
Mr. Meirion Griffith - £255.00 - torri gwair y fynwent gyhoeddus

Mr. Meirion Griffith - £105.00 - torri gwair amrywiol lefydd
Mr. Meirion Griffith - £45.00 - torri gwair cae chwarae Llyn y Felin
Pwyllgor Hen Lyfrgell - £216.00 – llogi ystafell bwyllgor
Clear Insurance - £2,502.56 – yswiriant y Cyngor am y flwyddyn*
Mr. Joe Patton - £350.00 - nwyddau I'r ardd gymunedol (allan o gyfrif Cae Chwarae Brenin Sior)

*Cytunwyd i dalu anfoneb Clear Insurance unwaith bydd yr is-bwyllgor cyllid wedi adolygu polisi yswiriant y Cyngor.

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,700

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Mark Lewis a wnaeth y Cyng. Simon Turner gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Sally Rapson - £25.00 – rhent rhandir rhif 9
Tim Brooks - £20.00 – rhent rhandir rhif 5
Linda Soar - £20.00 – rhent rhandir rhif 11 (a)
Lisa Robertson - £20.00 – rhent rhandir rhif 10
Cyngor Gwynedd - £42,500.00 – hanner y precept
Dafi Owen - £150.00 – rhent rhandir rhif 1, 2 a 3
Paula Ireland - £30.00 – rhent rhandir rhif 7
Cyngor Gwynedd - £8,062.15 – ad-daliad incwm meusydd parcio
Cyllid a Thollad - £902.90 - ad-daliad TAW

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**
Catrin Soraya Williams – £145.00 - gwasanaeth cyfieithu

Fe adroddodd y Trysorydd bod yr Archwiliad Mewnol wedi cael ei gwblhau a bod dim materion arwyddocaol yn codi heblaw am am y materion isod -

Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

- Risg o golledion neu daliadau anawdurdodedig wrth brosesu taliadau ar lein h.y. dim awdurdodiad deuol ar-lein ar gyfer trafodion banc.
- Risg o dirwyon gan CThEM ar gostau staff a daliwyd heb adolygiad o'r costau a'u datgan ar gyfer oblygiadau treth.
- Risg bod y Cyngor yn osgoi rhwymedigaethau cyflogaeth drwy fethiant i ddarapru tystiolaeth digonol ar gyfer adnabod statws cyflogaeth staff.
- Risg o golledion ariannol ble nid oes adolygiad systematig o'r polisi yswiriant er mwyn gwirio os yw'n. ddigonol ai beidio

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi cwblhau'r Ffurflen Flynyddol hyd at y 31ain o Fawrth 2026, aeth yr Aelodau drwy'r ffurflen hon a chytunwyd i'w chymeradwyo a chytunwyd hefyd i'r Cadeirydd a'r Clerc/Trysorydd lofnodi hyn ar ran y Cyngor.

**5.11 GOHEBIAETH**
**A Un Llais Cymru**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn Lansio Adduned Un Llais Cymru Ar Cwrteisi a Parch ag yn gofyn i'r Cyngor gwblhau a llofnodi'r adduned. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod. Cytunwyd I rhoid y mater hwn ar agenda mis nesa.

**B <u>Cyngor Gwynedd - Gwasanaethau Corfforaethol</u>**

Wedi derbyn e-bost gan Nia Edwards Clarke o'r Adran uchod ynlgyn Astudiaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas ag yn datgan eu bod yn ddiweddar wedi derbyn grant i wneud asesiad dichonoldeb isadeiledd gwyrdd a glas mewn gwahanol ardaloedd trefol ar draws y sir. Hefyd yn datgan eu bod wedi adnabod Harlech fel ardal addas i ymchwilio gan fod cyfraddau canopi coed trefol gymharol isel, sydd yn gyfle gwych i'r Cyngor Sir a Chyngor Tref archwilio opsiynau i adfer natur a chydnerthedd ecosystemau. Megis cychwyn y broses ymchwilio a dylunio y maen't ag felly hoffai gyfarfod gyda'r Cyngor i drafod cwmpas yr astudiaeth a deall ein blaenoriaethau. Os oes gan y Cyngor ddiddordeb dod i gyfarfod gyda nhw i ddysgu mwy am y prosiect mae angen cwblhau y ffurflen isod beth yw eich argaeledd.
https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSehVHXsPPwGNm2sNz6W5tViIyqlqOQDLlffF3raEHZPjyrmgA/viewform?usp=publish-editor
Datganodd y Cyng. Reg Chapman ei fod wedi cofrestru yn barod i fynychu y cyfarfod hwn.

**ARWYDDWYD............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD....................................................** 889